**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, 12fed o Fehefin 2023 yng Nghanolfan Deunant am 7.30 o'r gloch**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Wenda Williams, Dafydd Myrddin, Mari Evans, Nesta Roberts ac Emlyn Jones
**Yn y gadair:** Y Cyng Jaci Jones hyd eitem 5). Cynnigwyd, eilawyd ac ar bleidlais y mwyafrif etholwyd y Cyng RJ Williams yn gadeirydd am y flwyddyn 2023-24 a chymerodd y gadair o eitem 5ii) ymlaen.
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u> :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dewi Evans, Tim Rosa, Dafydd Williams a Wil Evans.
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:</u>** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Fai 2023</u>:** Cynnigwyd ac eilwyd a thrwy bleidlais y mwyafrif penderfynwyd fod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
a)Derbyniwyd ateb gan Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd yn datgan nad yw yn rhagweld y bydd y Llywodraeth yn cyllido cylchfan ym Mhenygroeslon, fodd bynnag bwriedir gwneud astudiaeth dichonoldeb i'r posibiliadau ar gyfer gwella y groesffordd.
b)Derbyniwyd diweddariad gan Iwan ap Trefor ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu palmant o Ysgol Crud y Werin at Bro Hywyn, mae'r Cyngor yn chwilio am gyfleoedd er mwyn cyllido y prosiect.
c)Derbyniwyd ymateb gan y Peiriannydd Ardal yn cadarnhau fod y tyllau o Efail Saithbont hyd at pin Tŷ Mawr, Mynytho a ffordd Tŷ Croes Mawr wedi eu trwsio.
**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Mae cwmni penseiri Donald Insall yn y broses o dderbyn prisiau gan gontractwyr am drwsio to yr eglwys, mae un wedi ei dderbyn sydd yn cynnwys 3 opsiwn posib, maent yn aros am ddau bris arall. Mae Elgan Jones o gwmni Donald Insall wedi ysgrifennu at gwmni yswyriant Zurich er mwyn eu diweddaru.
Mae'r Cadeirydd yn mynd i wneud astudiaeth iechyd a diogelwch o'r fynwent cyn y cyfarfod nesaf.
**iii)Cae chwarae:** Nid oedd y Cyng Gwenllian Hughes Jones yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn rhoi adroddiad. Nodwyd fod nam wedi ei ddarganfod ar ffrâm y swing a bod y seti wedi eu tynnu i ffwrdd er mwyn sicrhau nad oes neb yn gallu ei ddefnyddio. Nid oedd archwiliwr y cae chwarae o gwmni Wicksteed wedi sylwi ar y nam.
**iv)Cyfarfod Bleddyn Jones ynghylch project Awyr Dywyll:** Bydd yn mynychu y cyfarfod nesaf i sôn am y prosiect.

**v)Adroddiad o gyfarfod 'Ardal Ni':** Derbynwiyd adroddiad cynhwysfawr trwy ebost gan y Cyng Dewi Evans a fynychodd y cyfarfod yn egluro fod diweddariad wedi ei roi ar y Cynllun Adfywio Lleol (Ardal Ni) a lle mae o arni.
Trwy adfywio, golygir yr ymdrech fwriadol i wella ardal yn economaidd, amgylcheddol, gymdeithasol neu ddiwylliannol.
Roedd y ddogfen weithiol wedi ei pharatoi a'r ymatebion gan y cyhoedd wedi eu dadansoddi Derbyniwyd tua 350 o ardal Pen Llŷn, sef Cynghorau Aberdaron, Llanbedrog a Nefyn (Pwllheli mewn ardal arall ar gyfer y prosiect yma).
Soniwyd fod angen cryn tipyn o waith ar y ddogfen eto, a bod angen ei datblygu, a gofynwyd am chwaneg o syniadau. Yn benodol gofynwyd sut y dylid troi syniadau yn brosiectau (tymor byr, canolig a hir), a pha gyrff, grwpiau, sefydliadau sy'n bodoli eisoes fedrai arwain ar hyn, neu bod yn rhan arno.
Mae 4 cronfa ariannol i gael pres i gyllido cynlluniau o'r fath:
**Cronfa Ffyniant Cyffredin (SPF – Shared Prosperity Fund)**
Amserlen yn dynn iawn, ond tua £20 miliwn wedi ei glustnodi i Wynedd gan y llywodraeth.
3 blaenoriaeth : Cymuned a Lle; Cynorthwyo Busnesau Lleol; Pobl a Sgiliau
Grantiau amrywiol o ran maint £10k - £25k, £25k-£75k, £25k - £200k.

Angen hawlio unrhyw bres a chwblhau prosiectau erbyn Rhagfyr 2024
**Arfor 2**
£5k-£75k o gefnogaeth (hyd at 70% o gost prosiect)
Creu cyfleoedd i bobl a theuluoedd ifanc (o gwmpas 35 oed) aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid, creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg, uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio, cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg
**CIST Gwynedd**
Grantiau bach hyd at £1k neu rai mwy hyd at £10k ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol gyda'r nod o gefnogi cynlluniau a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau'r sir.
**Cronfa Cymunedau Eryri**
Grantiau £5k - 20k ar gael i gymunedau lleol a grwpiau a chymdeithasau gwirfoddol at ddibenion cydnerthedd economaidd-gymdeithasol.
Dylai ceisiadau flaenoriaethu'r themâu canlynol:
Seilwaith werdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol ffyniant yr iaith Gymraeg, datgarboneiddio
**vi)Cynllun Hyfforddi ac Adroddiad Blynyddol:** Cyflwynwyd y ddwy ddogfen i'r Cyngor ac fe'u derbyniwyd.
**vii)Swydd clerc:** Adroddwyd fod y swydd wedi ei hysbysebu ar facebook ac y bydd hysbyseb yn ymddangos yn Llanw Llŷn mis yma. Penderfynwyd holi am bisiau laptop ac argraffydd.
**5) Gohebiaethau**
i)Llythyr gan Sion Bryn Roberts parthed clwb ieuenctid: Derbyniwyd llythyr yn holi os y byddai y Cyngor Cymuned yn fodlon cefnogi yn ariannol y clwb ieuenctid yng Nghanolfan Deunant eleni, penderfynwyd y byddai y Cyngor yn cefnogi ar yr un telerau sef un rhan o dair o'r gost.
ii)Grantiau SPF: Derbyniwyd gwybodaeth am y rhaglen grantiau gan Alys Lloyd Jones o Gyngor Gwynedd - derbyniwyd y wybodaeth
iii)Harddu'r ardal ar gyfer yr Eisteddfod: Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd ynghylch cynlluniau posibl i harddu ymylon y ffyrdd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Mae cynnig i Gyngor Gwynedd roi cais ar gyfer caniatad ar ran cymunedau yr ardal ar y cyd. Tybir y bydd pwyllgor y gronfa leol yn cymeryd cyfrifoldeb am hyn.
**6) Cynllunio**
Cais C23/0456/30/HT: Uwchraddio mast cyfathrebu, Y Rhiw: Dim gwrthywnebiad.
Cais C23/0473/30/DT: Ffenestr gromen i stiwdio bresennol: Dim gwrthwynebiad.
**7)Ariannol**
i)Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol ac roedd un mater yn codi, sef nad oes gan y Cyngor bolisi bioamrywiaeth. Nid oes dyddiad wedi ei roi ar gyfer yr archwiliad allannol hyd yma.
**Taliadau**
Awdurdodwyd y clerc i dalu y canlynol:
Iwan Hughes: £260
HMRC (Paye): £65
Nesta Roberts: £12.56 (CCTV trwy S/O)
Huw Williams: £850 (barbio llwybrau)
Donald Insall: £5,460
Donald Insall: £2,100
Ffioedd HSBC: £5
**Derbyniadau**
GW Parry: £145 (claddedigaeth Susan Hillary Roberts)
**9) Materion ffyrdd a llwybrau**

i)Derbyniwyd ymholiad di-enw am y posibilrwydd o roi mainc yn mynwent yr Eglwys Newydd a nodwyd nad ydi y Cyngor yn trafod cwynion/ymholiadau di-enw. Nodwyd hefyd fod gan y Cyngor bolisi sydd yn erbyn rhoi meinciau yn y fynwent.
ii)Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd ynghylch pryd mae bwriad i dorri gwrychoedd yr ardal.
iii)Penderfynwyd atgoffa Cyngor Gwynedd ynghylch y fynedfa sydd i fod wedi ei chau yn unol ag amod cynllunio yn 'The Wilds', Aberdaron.
iv)Mae twll yn y ffordd yr ochr uchaf i Ty'n Llidiart, Y Rhiw
v)Derbyniwyd cwyn am anhawster i weld i gyfeiriad Sarn wrth ddod i'r groesffordd o gyfeiriad Y Rhiw ym Mhenygroeslon. Yn yr un modd mae'n anodd gweld i gyfeiriad Aberdaron yng nghapel Saron gan fod arwydd 'Felin Uchaf' ar lefel llygad.
vi)Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Gwynedd eto at yr arwyddion sydd ar y ffordd o flaen y Gegin Fawr yn Aberdaron.
vii)Gofynwyd os ydi hi yn bosibl cael gwybod faint o weithiau mae y Warden Traffig wedi ymweld â Aberdaron yn ddiweddar gan god problemau parcio, teimlir ei bod werth holi eto os oes posib ymestyn y llinellau melyn hyd at Cefnona.
viii)Derbyniwyd cwyn nad ydi y bin sbwriel wrth y ffynnon ar y ffordd i lawr i'r pentref yn cael ei wagio yn gyson a bod angen atgoffa Cyngor Gwynedd.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Neuadd Rhoshirwaun, nos Lun, Gorffennaf y 10fed am 7yh.**